**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 9 Medi 2021 am 9.30am**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| J A Hale | J W Jones | H M Morris |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Adrian Chard | Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol |
| Wyn Mathews | Prif Swyddog Adnoddau Dynol |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol:**
Louise Price - Ymgynghorydd Cyfreithiol Allanol Annibynnol

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: J E Burtonshaw a J P Curtice

---

## 7 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

## 8 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau a gynhaliwyd ar 26 Mai 2021 fel cofnod cywir.

## 9 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau canlynol ar yr agenda.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 10 Gwrandawiad Achwyniad

Cyflwynodd Adrian Chard, Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol, adroddiad o'r achwyniad i'r Pwyllgor. Darparwyd sylwadau ysgrifenedig yn yr adroddiad gan y swyddog dan sylw.

Derbyniodd y Pwyllgor sylwadau llafar gan y swyddog gan sylw.

**Penderfynwyd:** -

1) Cyfeirio'r mater i Berson Annibynnol Dynodedig (PAD) er mwyn gallu cynnal ymchwiliad i'r honiadau a wnaed gan yr achwynydd;
2) Yn ystod cyfnod yr ymchwiliad, ni fyddai gwaharddiad ffurfiol yn cael ei roi ar waith yn amodol ar asesiad risg boddhaol yn cael ei gynnal i sicrhau bod buddion y ddau barti'n cael eu hamddiffyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.20am

**Cadeirydd**